

Tyfu Cymru: Dalen Cyngor Technegol

Nodiadau ar Ffrwythau Meddal - Mehefin

Sylwadau Cyffredinol

O safbwynt tyfu, bu hwn yn dymor anodd cyn belled. Cawsom saith mis o dywydd gwlyb, wedyn dau fis o dywydd sych, poeth ac mae hyn wedi achosi problemau mewn ffrwythau meddal. Ceisiwch osgoi ailddefnyddio hen fagiâu er bod y cnwd presennol yn edrych yn gryf ac yn iach o bosibl, oherwydd mae'n gallu bod yn anodd osgoi'r risg o drosglwyddo clefydau a phlâu.

Casglu a Gwerthu

Wrth i'r planhigion ddwyn ffrwyth ystyriwch eich cynlluniau ar gyfer cynaeafu pob cnwd.

- Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydych yn casglu am y tro cyntaf yn hytrach nag yn cynnig gwasanaeth Casglu eich Hunain.
- Dylai casglwyr un pwrpas, os cânt eu hyfforddi'n iawn, adael cnwd llawer taclusach na'r cyhoedd oherwydd y byddant yn tynnu'r holl ffrwythau aeddfed y gellir eu graddio fel rhai dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth neu rhai na ellir eu marchnata, bydd hyn yn arwain at lai o wastraff a chanran uwch o ffrwythau y gellir eu gwerthu
- Hefyd, drwy gasglu, tynnu a gwaredu ffrwythau na ellir eu gwerthu (h.y. ffrwythau sy'n rhy aeddfed, wedi'u difrodi ac wedi'u heintio gan blâu), byddant yn gwella glendid eich twneli i helpu i reoli plâu/clefydau; a'r mwyaf nodedig o'r rheini yw'r pryfed ffrwythau asgellog, brith.
- Er na fyddai o bosibl yn briodol tracio cynhyrchiant casglwyr unigol fel y byddech yn ei weld ar ffermydd mwy, mae'n hanfodol treulio digon o amser yn hyfforddi eich staff ar sut i gasglu a graddio ffrwythau yn enwedig os ydych yn gwerthu rhai gradd is fel cynnyrch eilaidd i wneud jamiau.
- Os yw casglu ffrwythau yn newydd ichi ac mae'r cnwd yn cael ei dyfu ar ben byrddau, dylech ddarparu troliau casglu i'r casglwyr. Am fuddsoddiad bach, gallwch ddefnyddio troliau a fwrriadwyd i'w defnyddio'n wreiddiol mewn twneli er mwyn i'ch casglwyr weithio'n gyflymach ac yn fwy effeithiol â chnydau dan do a'r tu allan.
- Gallwch hefyd ddefnyddio'r rhain nid yn unig fel cymhorthion casglu ond hefyd i gludo planhigion i lawr y rhesi wrth blannu, i gario cyfarpar wrth dynnu ymledyddion, teneuo copau neu dynnu dail cnydau
- Gall oeri (tynnu gwres y cae) hefyd fod yn her newydd os ydych yn gwerthu ffrwythau wedi'u casglu am y tro cyntaf. Dylech geisio cael eich ffrwythau i o leiaf 10°C neu, gorau oll, i 5°C neu is mewn awr ar ôl eu cynaeafu er mwyn cynnal ansawdd ac ymestyn oes y cnwd ar y silffoedd.
- Mae'n debyg y gwelwch y byddwch fel arfer yn gallu gwerthu eich ffrwythau cyn pen ychydig oriau neu o leiaf ddiwrnod neu ddau ar ôl cynaeafu, ond yn enwedig pan fo'r tywydd yn arwpan fydd llai o bobl yn dod i'r fferm, bydd gallu tynnu gwres y cae a storio ffrwythau, y bu'n rhaid eu casglu yn ystod neu cyn i'r tywydd newid, yn oer yn eich helpu i gael cynnyrch o

ansawdd a pharhau i gyflenwi eich cwsmeriaid beth bynnag fo'r tywydd ac er mwyn cael cyflenwad cyson o ffrwythau wedi aeddfedu a'u casglu.

- Efallai y byddai'n werth i chi ystyried oergelloedd ar drelar, yn enwedig os na fyddwch ond yn eu hangen am gyfnod cymharol fyr o'r flwyddyn.
- Cofiwch ddiweddarau eich cyfryngau cymdeithasol i roi gwybod i'ch cwsmeriaid beth sydd gennych ar gael, ac ystyriwch sut gallwch barhau â rhannau eraill eich busnes – bydd caffis, llysiau wedi'u casglu'n barod neu flodau parod hefyd yn denu cwsmeriaid. O ran prasio, peidiwch â bod ofn diweddarau eich prisiau ar gyfer tymor newydd, yn enwedig os ydych cyn gwerthu cynnyrch wedi'i gasglu. Gellir codi prisiau o oddeutu £5-6/kg am ffrwythau casglu eich hunain i £7/kg i helpu i dalu costau ychwanegol y casglu. Cofiwch nad ydych chi'n cystadlu â'r archfarchnadoedd, rydych chi'n gwerthu cynnyrch gwahanol iawn!

Cnydau Eraill ar gyfer y Farchnad Casglu eich Hunain

Wrth i'r haf fynd rhagddo a chithau'n gwneud cynlluniau ar gyfer y flwyddyn nesaf, gallech ddechrau meddwl am gnydau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae nifer o gynhyrchion eraill yn cyd-fynd yn dda â'r model casglu eich hunain a gall ategu eich busnes mewn sawl ffordd. Gallwch blannu **india-corn** yn rhad ond eu gwerthu am bris uchel yn enwedig oherwydd y bydd eu gwerth yn llawer uwch na'r rhai a geir mewn archfarchnad. Gallech werthu'r mathau sylfaenol o **Flodau Haul wedi'u torri** am £1 am dri. Meddyliwch am ba fath o gwsmeriaid sy'n ymweld â'ch safle a pha gynhyrchion sy'n debygol o fod yn atyniadol iddyn nhw. Gall cynydau eraill fel eirin Mair fod yn ddefnyddiol i bontio'r cyfnodau cynaeafu a gallant fod yn boblogaidd iawn hyd yn oed os na chânt ond eu tyfu mewn ardaloedd bach; i'r gwrthwyneb, mae cyrens duon a chyrens cochion yn debygol o fod yn llai atyniadol ond mae llawer o dyfwyr yn synnu faint o bobl sy'n dal eisiau defnyddio cyrens i wneud *cassis*, hufen iâ a jeli cyrens cochion, felly maent yn gweld y ddau gnwd hwn yn gwerthu'n fuan iawn. Mae gan y ddau gnwd (yn enwedig y cyrens cochion) y fantais ychwanegol dros gnydau ffrwythau meddal eraill sef, os caiff y cyltiffarau iawn eu plannu, byddant yn aeddfedu'n gymharol hwyr a chyn belled nad yw'r tymheredd ym mis Gorffennaf a dechrau Awst yn rhy uchel, byddant weithiau'n sefyll am wythnosau a dal i fod yn farchnadwy e.e. y cyrens coch Rovado.

Bydd mwy o gynhyrchion hefyd yn cynyddu gwariant cyfartalog pob cwsmer oherwydd bod mwy o gynnyrch iddynt ddewis ohonynt. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o dyfwyr wedi gweld bod cwsmeriaid yn hoffi ymweld yn amlach y dyddiau hyn (sawl gwaith yr wythnos) i gasglu eu ffrwythau eu hunain neu i ddod i'r siop fferm gan brynu nifer gymharol fechan o ffrwythau neu llysiau ar y tro, felly sicrhewch fod gennych ddewis da o gnydau ar gael iddynt bob tro y dônt draw gydol y tymor cynaeafu. I wneud hyn â llysiau a blodau, fel gyda'r mefus, ac os yw eich mafon yn awr yn cael eu tyfu mewn swbstrad, mae gofyn plannu neu hau fwy nag unwaith er mwyn cael cynhaeaf (cyfnod gwerthu) sy'n para misoedd yn hytrach nag ond ychydig o wythnosau.

Clefydau mewn Mefus

Mae'r tywydd diweddar wedi bod yn ddelfrydol ar gyfer yr haint ac mae tyfiant powdrog yn datblygu'n gyflym ar ddail, ymledwyr/stolonau ac yn bwysicach na dim ffrwythau aeddfed ac anaeddfed. Os ydych chi'n gweld ymylon y dail yn troi i fyny, neu ddarnau piws-frown ar arwynebau uchaf y dail, neu sborau llwydaidd ar arwyneb y ffrwythau (dde) defnyddiwyd ffwngleiddiad cyflym sy'n wellhau hefyd ac sy'n ddelfrydol hefyd yn amddiffyn y planhigion – sylwer os ydych yn defnyddio nwyddau potasiwm bicarbonad (cynnyrch fel Karma) – mai gweithio i wella'r haint y mae'n bennaf, felly bydd angen ichi hefyd roi



ffwngleiddiad ataliol yn fuan wedyn. Mewn tymheredd poeth mae planhigion yn cymryd mwy o ddŵr er mwyn ymdopi â'r trydarthu cynyddol o'r deiliach. O ganlyniad, bydd difrod i'r meinwe fasgwlaidd (sylem) yng nghorunau neu wreiddiau planhigion, a achosir gan ffytstoffhthora, boed e'n bydredd i'r corun neu'r craidd, yn dechrau dangos i ddechrau fel darnau o dyfiant afreolaidd yn y planhigion, cyn i'r planhigion wywo a darfod mewn planhigfeydd.

Plâu Mefus

Rydyn ni'n gweld poblogaethau **Pryfed glas** yn cynyddu ar rai safleoedd, hyd yn oed pan fo rhaglen IPDM effeithiol ar waith, ac er bod y rhaglen wedi bod yn gweithio'n dda i reoli plâu megis thripsod a gwiddon corryn brych. Os ydych chi'n gweld achosion lleol o bryfed glas gallech ystyried eu hanwybyddu ar hyn o bryd os yw ar lefel isel iawn (ond daliwch i fonitro'r sefyllfa er mwyn ichi allu gweithredu'n gyflym os oes angen rhag bod y pryfed glas yn halogi'r dail a'r ffrwythau a'r melwlith maent yn ei secretu) neu fe allech drin y manau dan sylw nawr.



Mae Thiocloprid (Calypso) yn dda iawn am reoli pryfed glas, ond gwasgarwch ef yn ysgafn oherwydd mae'n gallu bod yn niweidiol i ysglyfaethwyr buddiol a gallai amharu ar eich IPDM. Gall hyn hefyd fod yn wir am **Widdon Corryn Brith** – dylech wyllo am achosion lleol ac ymateb iddynt yn gyflym; bydd eu trin yn fuan yn cadw pethau dan reolaeth. Cerddwch drwy'r cnydau o leiaf bob wythnos, a monitro eich cnydau am unrhyw newidiadau.




Mae'r tywydd eithriadol o boeth ddiwedd Mai a drwy'r rhan fwyaf o fis Mehefin wedi cynhyrchu llawer iawn o'r **Gwiddonyn Tarsonemid** eleni.

Rydych chi'n annhebygol o allu gweld y gwiddon oni bai bod gennych lens llaw x20, ond gallwch weld y dail ifanc yn crychu ac yn cyrllo (dde) yn hawdd; mae rhai cyltifarau megis Malling Centenary ac Elsanta yn agored iawn i ymosodiad. Rydych chi mewn mwy o berygl os ydych wedi cario planhigion mefus y llynedd neu wedi ailddenyddio bagiau neu gafnau sy'n cynnwys compost a ddefnyddiwyd i gynhyrchu cnydau'r llynedd.

Os ydych chi'n defnyddio *Neoseiulus (Amblyseius) cucumeris* i reoli thripsod blodau'r gorllewin, bydd y rhain yn rhoi rhyw gymaint o reolaeth dros widdon tarsonemid, fodd bynnag, mae'r cyfraddau cyflwyno ar gyfer y gwiddonyn rheibus hwn yn llawer uwch ar gyfer gwiddon tarsonemid, felly os yw'r difrod i planhigion mefus wedi dod i'r golwg, rydych chi'n debygol o fod angen cyflwyno *N. cucumeris* ddwywaith o leiaf gan ei ddefnyddio eilwaith 10-14 diwrnod yn ddiweddarach (yn ôl y boblogaeth gwiddon tarsonemid sy'n bresennol o 100-400 gwiddon/m²).

I sbot-reoli'r gwiddon corryn brith (ond dim ond os yw'n gnwd gwarchodedig) gallai'r gwiddonladdwr Cyflumetofen (Nealta) sydd ag ysbaid cynaeafu o 1 diwrnod fod yn ddewis defnyddiol. Caniateir ei ddefnyddio unwaith y flwyddyn, gall fod yn effeithiol yn erbyn holl gyfnodau symudol y pla hwn a gall hefyd leihau niferoedd y wyau. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gall gael effaith niweidiol fechan ar *Orius laevigatus* felly dylid cadw hyn mewn cof os caiff hwn ei ddefnyddio i reoli thripsod rhosod a mieri mewn mefus.

Plâu Blodau – Wrth gerdded o amgylch y cnydau yn rheolaidd, dylech archwilio'r blodau, gan daro blodau sydd ar agor yn ysgafn uwchben papur gwyn. Gallech weld **Chwilod Paill** (dde) yn eich cnydau wrth iddynt fewnfudo oddi wrth olew had rêp a bwydo ar y paill. Does dim angen ichi boeni am niferoedd bach, ond gall 5 i 6 ar bob blodyn arwain at ddifrod gan eu bod yn sathru i lawr ar waelod yr antheri a'r petalau, felly fe allech mewn rhai amgylchiadau ystyried rhoi triniaeth. Chwiliwch yn ofalus am **Thripsod**. Fe welir y thripsod duon yn awr yn aml mewn blodau mefus yn ystod canol i ddiwedd Mehefin a Gorffennaf h.y. thripsod rhosod a mieri, ac maent yn gallu staenio ffrwythau cnydau 60 diwrnod planhigion sy'n dwyn ffrwyth ym mis Mehefin yn ogystal â mathau o fefus sy'n fythol dwyn ffrwyth; maent ar hyn o bryd yn sensitif i spinosad (Tracer). Gall Calypso fod yn gynnyrch defnyddiol gyda'r plâu hyn hefyd, ond gwell yw ei ddefnyddio ar gyfer rheolaeth achlysurol. Fodd bynnag, mae defnyddio'r pryfleiddiaid hyn drosodd a drosodd yn debygol o arwain at ymwrthedd ymysg y rhywogaethau thripsod hyn.



Hefyd, mae spinosad yn ofynnol ar gyfer rheoli SWD ac mewn rhai achosion i reoli lindys **Tortricsod** (Blastobasis yn benodol) mewn mefus a warchodir. Ar gyfer cnydau awyr agored a chnydau gwarchoddedig ni chaniateir ond defnyddio'r pryfladdwr hwn 3 gwaith y flwyddyn, felly dylid defnyddio cyn lleied ohono â phosibl i reoli thripsod er mwyn sicrhau, yn enwedig yn achos cyltifarau sy'n bythol ddwyn ffrwyth, fod cylchoedd digonol o spinosad ar gael ar gyfer rheoli SWD yn effeithiol. Eleni, mae'r broblem SWD a'r diffyg opsiynau o safbwynt plaladdwyr i'w reoli mewn cnydau mefus awyr agored a gwarchoddedig wedi cael ei gwaethygu gan yr awdurdodiad Brys ar gyfer Cyantraniliprole (Benevia 100D) 1339/20 sy'n cyfyngu ar ei ddefnyddio rhwng 1 a 30ain Mehefin 2020, a dim ond yn rhoi caniatâd i'w ddefnyddio unwaith y flwyddyn yn ychwanegol.

Gall Calypso hefyd fod yn addas ar gyfer sbot-reoli **Capsidau** (dde) neu **Widdon Blodau** – mae capsidau eleni wedi dod yn broblem fwy sylweddol mewn rhai ardaloedd, yn enwedig pan geir llawer iawn o chwyn yn blodeuo wrth agoriadau neu ymylon twneli gan eu bod yn gallu gweithredu fel cronfa ar gyfer y pla hwn. Bydd capsidau yn dinistrio blodau ac yn gwneud tyllau mewn petalau, debyg i widdon blodau. Mae nymffau ac oedolion yn dechrau dod yn actif nawr, ond rhaid ichi fod yn wylidwrus gan eu bod yn tueddu i hedfan oddeutu 1-2m o'ch blaen wrth i chi gerdded i lawr y twnnel. Arwyddion eraill fydd ffrwythau di-siâp (trwyn smwt) fel isod.



Ffrwythau Cansenni

Yn achos planhigfeydd mafon sefydledig sy'n dwyn ffrwyth yn yr haf gwelwyd cyfraddau blaguro gwael yn aml y gwanwyn hwn, ac mewn sawl achos, er nad y cyfan, y brif broblem oedd y gaeaf eithriadol o dyner a gwlyb a oedd yn golygu na chafodd cansenni blodeuo'r mathau sydd angen oeri llawer iawn yn y gaeaf eu hoeri'n ddigonol e.e. Glen Ample, Glen Dee, Glen Carron. Mae hyn yn amlygu manteision defnyddio planhigion newydd a dyfir mewn potiau neu fodiwlau sydd wedi cael eu tyfu ac yna'u storio'n oer dros y gaeaf gan luosogwr planhigion arbenigol, fel eu bod, erbyn yr amser y cânt eu plannu yn y safle dwyn ffrwyth wedi cael eu hoeri'n ddigonol i flaguro'n wastad ar hyd y cansenni blodeuo cyfan mwy neu lai. Fe wnaeth planhigion sefydledig a gadwyd mewn potiau neu mewn pridd dros y gaeaf h.y. cynnal planhigion a blannwyd y llynedd neu'n gynharach, yn arferol, gynhyrchu canghennau ochrol llawn blodau/ffrwythau ar 25 neu 30% o'r cansenni uchaf gyda'r blagur yn brin neu ddim i'w gweld o gwbl yn is i lawr, ac o'r herwydd mae'r cnwd yn brin. Fe wnaeth cyfres o nosweithiau rhewllyd o 9 Mai ymlaen hefyd achosi, mewn rhai llefydd, i flodau gael eu colli, ac mewn rhai llefydd gwelwyd y prif ffrwythau, ac mewn rhai achosion, y ffrwythau ochrol eilaidd yn cael eu colli'n gyfan gwbl ac yn y sefyllfaoedd hyn gall y cynhyrchiant fod yn fychan iawn y flwyddyn hon a chael ei gyfyngu i ffrwythau ochrol trydyddol (os yw'r mathau o blanhigion yn eu cynhyrchu) a chynhyrchiant ffrwythau ochrol gwaelodol hwyr. Gwelwyd hefyd ddfrod difrifol i gansenni cyntaf tymor cyfredol mwyar duon, mwyar hybrid a mafon (ffrwythau hydref) cansenni cyntaf a haf, a lle na chafodd yr hyrddiad cyntaf o dwf y cansenni cyntaf dechreuol eu tynnu, maent wedi cynhyrchu cansenni ceinciog, byr ar gyfer cynhyrchu ffrwythau'r flwyddyn nesaf; bydd y meinwe fasgwlaidd mewn perygl a phlisgyn y gansen wedi hollti gan gynnig safleoedd dodwy wyau delfrydol i wybed cansenni mafon ac i heintiau Ffwsariwm a chlwy cansenni yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Bydd cansenni sydd newydd eu plannu mewn swbstrad yn dwyn ffrwyth 70-90 diwrnod ar ôl eu plannu, sy'n llawer cynt ac yn fwy cyson na phlanhigion a dyfir mewn pridd. Mae'r ansicrwydd oherwydd covid-19 yn dal yn ei gwneud yn anodd i dyfwyr, yn enwedig tyfwyr a oedd i ddechrau yn targedu'r farchnad casglu eich hunain er bod arwyddion positif i'w cael y bydd y cyfyngiadau'n cael eu llacio cyn bo hir. Os ydych chi'n gweld bod y cansenni mafon yn dechrau cyrraedd top eich twneli, gallech ystyried clymu'r cansenni ar ongl o 45°, gan dynnu'r cansenni dros y llwybr cerdded i greu siâp tebyg i dwnnel. Gallech yn hawdd gael eich temtio i dorri'r tyfiant, ond gofawch beidio â chymryd gormod o flodau os ydych yn gwneud hynny. Os ydych yn eu tyfu mewn potiau, gallai fod yn well ichi beidio â rhoi mwy na 4 i 5 cansen ym mhob potyn pan maent yn dechrau dwyn ffrwyth, gan gael gwared ar dyfiant newydd neu glymu â chortyn o bob tu.

Plâu Mafon

Mae niferoedd y **Gwybed Cansenni Mafon** yn dal i gynyddu, yn enwedig mewn safleoedd lle buont yn broblem yn y gorffennol, a dylid monitro'r rhain drwy ddefnyddio trapiau. Nid yw'n opsiwn eu symud â'r trapiau ac yn anffodus ni cheir ar hyn o bryd opsiynau plaladdwyr cwbl effeithiol i'w rheoli, bydd y rhai sydd ar gael yn cael effaith niweidiol sy'n para wythnosau weithiau, ar sefydlu a goroesiad gwiddon buddiol brodorol a chyflwynedig ac ysglyfaethwyr pryfed mewn cnydau sydd wedi'u trin, felly ni ddylid eu defnyddio fel chwistrellau cyffredinol dim ond wedi'u targedu lle gellir disgwyl i'r gwybed fod yn dodwy wyau, hefyd, dylid anelu i ddefnyddio'r dulliau rheoli gorau posibl ar gyfer cenedlaeth gyntaf y pla hwn. Mae cenedlaethau diweddarach, fwy neu lai, yn amhosibl i'w rheoli oherwydd bod treiddiad y deunydd a chwistrellir i gwmpasu rhisgl y cansenni cyntaf yn llwyr drwy ganopi deiliach (y cansenni blodau a'r cansenni cyntaf) yn aml yn cael ei lesteirio hyd yn oed mewn planhigfeydd awyr agored lle gellir chwistrellu ar ddwy ochr y rhesi. Mewn cnydau gwarchoddedig mae hyn yn debygol o fod yn amhosibl ei wneud yn enwedig i ochr allanol y rhesi sydd ger coesau twneli.



Un dewis yw tynnu hyrddiad cyntaf y tyfiant newydd fel nad oes dim cansenni cyntaf yn bresennol pan ddaw cenhedlaeth gyntaf y gwybed cansenni mafon i fyny o'r pridd neu'r compost yn y gwanwyn (Ebrill-Mai), fodd bynnag, gall y dechneg hon adael rhai cansenni yn agored i'w heintio o hyd felly mae'n bosibl y bydd gofyn chwistrellu'r cansenni blodeuo â phryfladdwr hefyd cyn gynted ag y gwelwch y gwybed llawn dwf a phan fo'r trothwy ar gyfer rheoli wedi pasio, yn enwedig os nad oedd y pla yn broblem y llynedd.

Gyda phlanhigion mafon cansenni hir a fwriedir ar gyfer un cnwd, yr arfer yw clirio'r hyrddiad cyntaf ac weithiau'r ail a'r trydydd hyrddiad o gansenni gan fod angen sicrhau na cheir dim cansenni cyntaf i'w trosglwyddo ac felly ni fydd angen chwistrellu dim i reoli clwy cansenni na gwybed cansenni.

Mae **Gwybed Dail Mwyar Duon** hefyd yn cael eu dal yn aml mewn trapiau; am flynyddoedd lawer, bu hwn yn bla difrifol i fafon cansenni cyntaf cynydau hydref neu gnydau dwbl gwarchoddedig ac i rai cyltifarau mwyar duon heb bigau sef Loch ness, ond yn fwy diweddar mae tyfwyr wedi dechrau gweld difrod i'r deiliach ac weithiau i flaen cansenni cyntaf rhai cyltifarau mafon sy'n dwyn ffrwyth yn yr haf.

Yr arwydd cyntaf yw bod blaen y dail yn troi ac yn ystumio oherwydd larfau y pryfed hyn (llun ar y dde). Mae'r pla yn achosi'r difrod mwyaf i flaen cansenni cyntaf cyltifarau o fwyar duon a chochion sy'n agored i'r pla, mae hyn yn lleihau cyfradd dyfu'r cansenni a'r deiliach yn gyffredinol, gallant achosi iddynt golli blaen y blagur gan achosi i ganghennau amryfal dyfu a'u gwneud yn anaddas i'w cadw ar gyfer tyfu cnwd y flwyddyn ganlynol.

Mae **Pryfed glas Mafon Mawr a Bach** i'w cael mewn cynydau gwarchoddedig a chnydau awyr agored. Rydych yn fwyaf tebygol o ddod o hyd iddynt yn bwyta rhwng y dail a phlygiadau'r dail ar flaen y cansenni cyntaf neu'r cansenni blodeuo. Arwyddion diamau o'r pla yw melwlith disglair ar ddeiliach o dan y dail neu ar y tomwellt islaw. Gallai ysglyfaethwyr fel buchod coch cota neu bryfed hofran fod yn arwydd hefyd. Gwelwyd **Gwiddon Corryn Brith** mewn cynydau gwarchoddedig a chnydau awyr agored, yn wyau ac yn oedolion, yn bennaf o dan y deiliach hynaf a'r cansenni cyntaf i gyfeiriad y gwaelod a thu mewn i resi cynydau. Bydd cyflwyno ysglyfaethwyr (e.e. *Phytoseiulus* neu *Neoseiulus andersonii*) yn helpu i reoli'r pla hwn y tu allan a dan do. Dylid monitro trapiau **Chwilod Mafon** yn ofalus yn awr i weld a oes angen chwistrellu. Os oes, mae defnyddio thiacloprid (Calypso) yn gweithio'n ardderchog pan geir blagur gwyrdd hwyr, yn gyffredinol ac eithrio mwyar duon Calypso.

Clefydau Mafon

Mae **Clwy Cansenni** yn dal i fod yn broblem mewn nifer o blanhigfeydd mafon sefydledig sy'n dwyn ffrwyth yn yr haf, gan achosi i nifer o gansenni blodeuo farw dros y gaeaf, neu flaguro i ddechrau ac yna darfod rhwng hynny ac amser eu cynaeafu. Yr hyn sy'n achosi clwy cansenni yw rheolaeth annigonol ar wybed cansenni, rhew diwedd yr hydref a diwedd y gaeaf a difrod ffisegol i'r blagur nodol a rhisgl cansenni blodeuo. Os ydych chi'n cael trafferth rheoli gwybed cansenni mafon neu glwy cansenni, trafodwch eich dewisiadau yn awr â'ch ymgynghorydd ffrwythau yn ADAS.

Mae **Rhwd Mafon** hefyd i'w weld ddechrau'r haf hwn gyda chyrff sborau i'w gweld ar arwynebau uchaf (gweler y llun gyferbyn) ac yn fwy diweddar ar arwynebau isaf y deiliach blodau ac mewn rhai achosion nawr ar y cansenni cyntaf. Mae'r tywydd ddiwedd yr haf y llynedd, yn ystod yr hydref a diwedd y gwanwyn a dechrau'r haf hwn wedi bod yn ddelfrydol i'r pathogen hwn. Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, mae'r haint i'w weld fel arfer fer smotiau melyn suddedig ar arwyneb uchaf dail estynedig. Mae'r rhain wedyn yn newid yn gyrff sborau oren / melyn llachar (llun ar y dde). Os yw'r tywydd yn wlyb a chynnes neu'n boeth ac yn llaith gall calycsau neu hyd yn oed ddrwpledau'r ffrwythau gael eu heintio. Gall yr haint ar y deiliach hefyd fod mor ddifrifol fel bod y cansenni cyntaf yn colli eu dail cyn pryd yn ystod dechrau'r hydref gan wneud y cansenni yn llai gwydn at y gaeaf. Gellir rheoli heintiau cynnar drwy ddefnyddio myclobutanil (Systhane 20EW) sy'n nodi y dylid ei ddefnyddio ar gnydau awyr agored a chnydau gwarchoddedig, 3 gwaith y flwyddyn, gydag ysbaid cynaeafu o 14 diwrnod, neu ddefnyddio bocslid + pyraclostrobin (Signum - mae EAMU yn caniatáu ei ddefnyddio mewn

cnydau awr agored a gwarchodedig, 3 gwaith y flwyddyn mewn cnydau gwarchodedig a 2 waith mewn cnydau awyr agored, mae gan y ddau ysbaid cynaeafu o 3 diwrnod) neu azoxystrobin (Amistar) (EAMU cnydau awyr agored a gwarchodedig), 2 waith y flwyddyn ac ysbaid cynaeafu o 7 diwrnod. Sylwer hefyd na ddylid defnyddio azoxytrobin pan fo'r tymheredd yn uchel (gweler y label ac EAMU am fanylion llawn sut i'w ddefnyddio). Bydd awyru cnydau gwarchodedig mewn tai gwydr a thwneli yn ddigonol i leihau lleithder cymharol a'r tymheredd yn enwedig dros nos hefyd yn lleihau datblygiad a lledaeniad y clefyd. Yn achos mathau o ffafion sy'n dwyn ffrwyth yn yr hydref sy'n agored iawn i glefydau, gall gwella cylchrediad yr aer a lleihau lleithder cymharol o amgylch y canopi dail isaf helpu hefyd drwy ddefnyddio llinellau diferion ar wyneb y pridd a ddim gollwng dŵr o systemau diferu dros ddeiliach isaf cansenni os gosodwyd y llinellau dyfrio uwchben arwyneb y pridd neu'r compost (mae hwn hefyd yn opsiwn ar gyfer lleihau heintiau clwy cansenni ar waelod cansenni). Hefyd, mae rhai tyfwyr yn tynnu'r deiliach isaf oddi ar gansenni ym mis Gorffennaf i uchder o 20-30cms. Mae pydredd gwreiddiau **Ffytioffthora** hefyd yn awr yn dechrau cael ei weld mewn cnydau wrth i'r dail dyfu'n fawr ac wrth i'r gwreiddiau ddechrau gwanhau, felly archwiliwch eich cnydau'n rheolaidd am unrhyw arwyddion o'r clefyd hwn yn eich planhigfeydd – gweler y lluniau isod.



Ffrwythau Llwyni

Mae mathau cynnar o gyrens duon, megis Ben Gairn, yn dechrau dangos lliw yn awr, sy'n golygu y gallai'r cynaeafu ddechrau cyn pen mis, yn ddibynnol ar y tywydd yn ystod yr amser hwn. Mae ffrwythau llus yn awr yn dechrau chwyddo, felly sicrhewch fod y planhigion yn cael digon o ddŵr. Mae'n edrych fel bod rhai mathau wedi blodeuo a dwyn ffrwyth yn well nag eraill – mae'n dibynnu a oeddent yn eu blodau yn ystod cyfnodau oerach ar ddechrau ac yng nghanol Mai. Mae cnydau eirin Mair a wnaeth fyw drwy'r rhew ym Mai yn awr yn edrych yn dda gyda'r ffrwythau'n aeddfedu'n gyflym er bod y tywydd poeth a llaith diweddar wedi bod yn ffafriol i'r haint llwyni powdrog Americanaidd ar flaen blagur, deiliach a ffrwythau cyltifaru sy'n agored i'r clwy hwn ac mae'n bosibl y bydd arnynt angen gwarchodaeth ychwanegol yn erbyn y clefyd lle mae'r canghennau'n gwywo gyda phwysau'r cnwd.

Plâu

Gall pryfed cennog fod yn broblem o hyd mewn rhai cnydau os na chafodd y cyfnodau ymlusgo eu rheoli â thiacloprid (Calypso). Os na chawsant eu rheoli'n ddigonol yn gynharach yn y tymor tyfu, gall lindys gwyfynod tortrics wneud difrod sylweddol yn awr mewn llus. Felly mae'n bwysig dal i fonitro cnydau am lindys y gwyfyn afalau brown golau a gwyfynod tortricsod eraill. Hefyd, dylid archwilio cnydau cyrens duon, cyrens cochion ac eirin Mair yn rheolaidd am arwyddion cyntaf lindys y **Lifbryf**. Dylid archwilio'r dail sy'n isel i lawr ac o gwmpas canol y llwyni am olion bwyta a dylid eu trin fel y bo angen. Mae difrod gan **Bryfed glas**, yn ddibynnol ar y cnwd a'r rhywogaethau pryfed glas dan sylw hefyd yn gallu achosi i'r dail a'r coesau droelli, melynau a chael bothelli coch arnynt.

Clefydau

Dylid monitro'n benodol am y **Clwy Smotiau** mewn mathau sy'n agored i'r clwy, fel Ben Hope. Mae **Pydredd llwyd** wastad yn risg i gnydau cyn cynaeafu, yn enwedig â'r tywydd newidiol a thamp yr ydym wedi'i gael yn ddiweddar. I gael gwell rheolaeth ar Bydredd llwyd dylech dorri'r tramwyfeydd lle mae chwyn yn dechrau tyfu oherwydd y bydd hyn yn cynyddu'r lleithder a'r risg bod Pydredd llwyd yn datblygu. Dylech fonitro'r cnydau'n ofalus a gweithredu os oes angen. Dylai **Llwydni Powdrog** mewn eirin Mair fod wedi cael eu trin â chwistrellau fel mater o drefn, ond cofiwch fonitro'r cnwd yn enwedig pan fo'r tymheredd yn dechrau codi.

Gall **Anthracnos Llus** fod yn fwy amlwg ar ôl i'r ffrwythau dyfu ac aeddfedu. Bydd y ffrwythau wrth iddynt aeddfedu yn suddo ac yn crychu ym mhen y blaguryn. Dylai rhaglenni ffwngleiddiaid effeithiol pan maent yn blodeuo fod wedi lleihau'r risg bod hwn yn datblygu. Os yw'r cnwd yn cael ei becynnu, sicrhewch fod y ffrwythau'n cael eu hoeri mor gyflym â phosibl ar ôl eu cynaeafu.

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb yr wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylai'r holl gemegolion amddiffyn cnydau gael eu defnyddio'n unol â'r argymhellion ar y label, a dylid darllen yr argymhellion hynny cyn chwistrellu. Efallai na fydd rhai o'r plaladdwyr a grybwyllir yn y nodiadau hyn yn cael eu cefnogi gan argymhellion ar labeli ar gyfer eu defnyddio ar gnydau ond eu bod yn cael eu caniatáu drwy'r Estyniad o Ganiatâd ar gyfer Mân Ddefnydd (EAMU) yn y DU dan y 'Trefniadau Hirdymor Diwygiedig ar gyfer Ymestyn Defnydd (2002)'. Yn yr achosion hyn, defnyddir y plaladdwr ar risg y defnyddiwr ei hun ac nid yw Tyfu Cymru'n derbyn atebolrwydd am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Mae'r cyfeiriadau at gymeradwyaeth ar labeli ac EAMU ar gyfer defnyddio plaladdwyr mewn cnydau yn gywir adeg ysgrifennu. Gall y rhain gael eu newid a gallai cymeradwyaeth gael ei thynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio'r cymeradwyaethau cyn defnyddio plaladdwyr. Os bydd unrhyw amheuaeth, dylai tyfwr geisio cyngor gan gynghorydd sy'n gymwys dan BASIS - mae hyn ar gael yn rhad ac am ddim ar gyfer tyfwyr cymwys drwy raglen Tyfu Cymru, cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – mae cyngor drwy e-bost/dros y ffôn hefyd ar gael.